



Niwrowahaniaeth Cymru Digwyddiad Ail-lansio

Dydd Iau, 31 Hydref 2024

Bywgraffiadau Siaradwr



Emma Durman

Mae Emma Durman yn gyd-gyfarwyddwr Outside Education & Training, cwmni o Dde Cymru sy'n arbenigo mewn Awtistiaeth a chyflyrau cysylltiedig. Mae Outside yn darparu ystod o hyfforddiant i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol sy'n canolbwyntio ar gefnogi anghenion niwrowahanol. Mae Emma wedi cael diagnosis hwyr o awtistiaeth ac mae ganddi ADHD a llawer o gyflyrau sy'n cyd-fynd â nhw. Mae hefyd yn fam i blentyn Awtistig yn ei arddegau sydd hefyd ag ADHD. Mae gan Emma MSc mewn Awtistiaeth a chyflyrau cysylltiedig ac mae wedi ysgrifennu llyfr ar y cyd a gyhoeddwyd yn ddiweddar, 'Supporting Autistic people through pregnancy and childbirth'.



Keith Ingram

Mae Keith wedi bod yn Swyddog Arweiniol Awtistiaeth i Gaerdydd a Bro Morgannwg ers 2010 ac mae hefyd yn Gadeirydd y Grŵp Arweinwyr Awtistiaeth Cenedlaethol yng Nghymru. Mae Keith yn cadeirio'r Bwrdd Awtistiaeth Strategol Rhanbarthol ar gyfer Caerdydd a'r Fro, ac yn cynrychioli Arweinwyr Awtistiaeth ar y Grŵp Ymgynghorol Gweinidogol ND. Yn gyn lysgennad cyflogaeth awtistiaeth i Gymru, mae Keith hefyd wedi treulio 10 mlynedd fel Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Arbennig Ashgrove ym Mhenarth. Yn bwysicaf oll, mae Keith yn dad balch i ddyn awtistig 32 oed sy'n ei ysbrydoli a'i ryfeddu bob dydd.



Daniel M Jones

Mae Daniel M. Jones yn awdur rhyngwladol poblogaidd Autism For Adults ac yn ddylanwadwr fideo gyda sianel YouTube sydd wedi ennill gwobrau o'r enw The Aspie World. Mae'n creu ymgysylltiad gyda phobl go iawn i greu newid go iawn mewn ffordd gadarnhaol sy'n codi calon. Mae gan Daniel ddiagnosis o Awtistiaeth, OCD, ADHD a Dyslecsia ac mae'n defnyddio ei ddylanwad i helpu i addysgu pobl am Awtistiaeth gan ddefnyddio ei sgiliau fel dylanwadwr fideo a chyfryngau cymdeithasol. Mae Daniel hefyd wedi creu'r panel niwroamrywiol cyntaf erioed sy'n siarad am ADHD ac Awtistiaeth yn VidCon yr UDA sef y gynhadledd fideo fwyaf yn y byd.



Sian Delyth Lewis

Mae Sian yn arwain y Rhaglen Gwella Niwroamrywiol yn Llywodraeth Cymru fel rhan o'r Tîm Polisi Niwroymgyfeirio ac Anableddau Dysgu. Mae Sian ar secondiad i Lywodraeth Cymru o Gyngor Sir Fynwy. Ei rôl sylweddol yw Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gwent, a sefydlodd ym mis Medi 2017. Cyn hyn roedd Sian yn rheoli Tîm Gwaith Cymdeithasol Anabledd Dysgu Cymunedol Blaenau Gwent am 10 mlynedd. Sian oedd y Swyddog Diogelu Oedolion cyntaf yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent i oruchwyllo gweithredu polisi a gweithdrefnau diogelu oedolion newydd yng nghanol y 2000au. Yn ôl cefndir mae Sian yn weithiwr cymdeithasol cymwys sy'n gweithio ym maes anableddau dysgu ers blynyddoedd lawer.



Sarah Murphy MS

Cyn cael ei hethol, graddiodd Sarah o'r Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Chyfathrebu ym Mhrifysgol Caerdydd gydag MA (Rhagoriaeth) mewn Cyfryngau Digidol a Chymdeithas. Rhwng 2019 a 2021, ymchwiliodd i ddefnydd llywodraethau'r DU a rhyngwladol o ddata mawr a dulliau dylunio algorithmig ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus - gan ganolbwyntio ar nodi niwed data posibl a gwahaniaethu yn erbyn plant a theuluoedd. Yn 2024, cyhoeddwyd ei hymchwil gyda'r Labordy Cyfiawnder Data i undebau llafur a deallusrwydd artiffisial yn y gweithle yn y cyfnodolyn Transfer: European Journal of Labour and Research, a adolygir gan gymheiriaid. Ym mis Mai 2022, rhoddodd Sarah araith yn Siambr y Senedd am ei phrofiad ei hun o fod ag anhwylder bwyta pan oedd yn ei harddegau ac mae wedi bod yn awyddus i hyrwyddo ac chryfhau lleisiau'r rhai â phrofiad byw i wella gwasanaethau. Roedd Sarah hefyd yn Ymddiriedolwr ar gyfer Canolfan Adsefydlu Alcohol a Chyffuriau Cymru hyd nes iddi gael ei hethol. Cyn cael ei phenodi i Lywodraeth Cymru, roedd Sarah yn aelod o Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd a gynhaliodd yr ymchwiliad i ofal canser gynaeolegol ac anghydraddoldebau iechyd meddwl yng Nghymru. Ar 11 Medi 2024, penodwyd Sarah yn Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.



Ewan Richards

Roeddwn i'n ffodus iawn o gael cymorth un-i-un arbennig drwy gydol fy nghyfnod yn yr ysgol a chefais ddiagnosis swyddogol o awtistiaeth pan oeddwn yn 11 oed, er ei bod yn amlwg fy mod yn awtistig ers y cychwyn! Drwy gydol fy mlynnyddoedd o addysg, oherwydd fy anghenion a'r diagnosis o awtistiaeth, cefais lawer o gymorth gan weithwyr proffesiynol fel therapyddion lleferydd, cymorthyddion dysgu un-i-un, ffisiotherapyddion a gweithwyr meddygol eraill. Yn ystod fy nghyfnod yn y coleg a'r brifysgol, roeddwn yn cael fy nghefnogi'n llawn gan Gymhorthydd Astudio, Mentor Arbenigol a darlithwyr caredig iawn! Gyda gwaith caled a phenderfyniad, arweiniodd hyn at gael fy swydd bresennol yn y Brifysgol.



Donna Sharland

Donna yw'r Rheolwr Prosiect Trawsnewid ND ar gyfer y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae rôl Donna wedi canolbwyntio ar drawsnewid gwasanaethau ND yng Nghymru a goruchwylio datblygiad y tîm i gynnwys ADHD, Ticiau a Tourettes. Mae hi'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, yn eistedd ar y Grŵp Ymgynghorol Gweinidogol ar gyfer Niwrowahaniaeth ac yn gweithio gyda Budd-ddeiliaid allweddol yng Nghymru i wella bywydau pobl niwrowahanol yng Nghymru.



Professor Anita Thapar

Mae Anita yn glinigwr a gwyddonydd. Mae hi'n bennaeth ar yr adain Seiciatreg Plant a Phobl Ifanc academaidd ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae ein hymchwil yn canolbwytio'n bennaf ar ADHD, niwrowahaniaeth a hefyd ar iselder mewn pobl ifanc. Bu i Anita hyfforddi mewn Meddygaeth a Seiciatreg yng Nghaerdydd/ De Cymru. Roedd yn Uwch Ddarlithydd ym Mhrifysgol Manceinion gan ddychwelyd fel Athro yng Nghymru yn 1999. Mae hi'n wyddonydd, yn addysgu/hyfforddi myfyrwyr ac yn weithwyr proffesiynol iechyd ac yn parhau i weithio fel clinigwr.



Wendy Thomas

Mae Wendy Thomas yn Bennaeth Gwasanaeth Niwrowahaniaeth Cymru ac yn rheoli'r tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol. Mae Wendy wedi bod yn y swydd hon ers dros 6 mlynedd. Cyn hynny, bu'n gweithio yn y sector gwirfoddol ac yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru ers dros 27 mlynedd mewn amrywiaeth o swyddi, a thra bu'n Rheolwr Comisiynu yn y Gwasanaethau Plant yn Sir Gâr, hi hefyd oedd yr Arweinydd Awtistiaeth. Yn ei swydd fel Arweinydd Awtistiaeth, datblygodd Wendy amrywiaeth o fentrau a phrosiectau, a defnyddiwyd nifer o'r rhain fel modelau cenedlaethol. Teimla Wendy'n freintiedig iawn o fod wedi cael cyfarfod a chydweithio â chymaint o bobl anhygoel ar y daith Niwrowahaniaeth hon. Mae'n parhau i fod yn frwd iawn dros helpu gwella bywydau pobl niwrowahanol a'u teuluoedd yng Nghymru.